# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynllun y Cyngor 2018 – 23, Adolygiad 2022/23

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Pwrpas Cynllun y Cyngor ydi adnabod blaenoriaethau a meysydd allweddol i'w gweithredu rhwng 2018 a 2023. Cafodd fersiwn wreiddiol y Cynllun ei fabwysiadau gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2018. Roedd y Cynllun, yn ei flwyddyn gyntaf, yn datgan ein gweledigaeth am 5 mlynedd, ac yna mae pob adolygiad blynyddol yn cynnig diweddariad sy'n crynhoi yn fyr ble yr ydym wedi ei gyrraedd ar y siwrnai, a beth fydd ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Caiff y Cynllun ei adolygu'n flynyddol a'i ail-gyhoeddi gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o flaenoriaethau gwella'r cynllun presennol, y materion o flaenoriaeth sydd angen sylw yn y tymor byr, ac unrhyw faterion eraill ar gyfer sefydlogi ac ail adeiladu yn dilyn y cyfnod COVID-19 sydd angen eu cynnwys o fewn y blaenoriaethau.

Bydd y fersiwn hon o'r Cynllun, Adolygiad 2022/23, yn disodli'r fersiwn gyfredol.

Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma yn edrych ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae disgwyl i bob cynllun unigol gael Asesiad ar wahân ar y prosiect yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono. Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y cynllun unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

27 Mehefin 2017, fersiwn 1 yn ymwneud â'r ymgysylltiad
13 Rhagfyr 2017, fersiwn 2, asesiad llawn o'r Cynllun
4 Chwefror 2019 – fersiwn 3, asesiad llawn o adolygiad 2019-20
31 Ionawr 2020 – fersiwn 4, asesiad llawn o adolygiad 2020-21
16 Chwefror 2021, fersiwn 5, asesiad llawn o adolygiad 2021-22

Hwn yw fersiwn 6 – 15 Chwefror 2022, asesiad llawn o adolygiad 2022-23

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Aelodau Etholedig, defnyddwyr gwasanaeth, trigolion Gwynedd, partneriaid ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Ymgynghoriad 6 wythnos yn ystod gaeaf 2017/18 i gyflwyno ac egluro'r blaenoriaethau drafft i'r cyhoedd, partneriaid a sefydliadau lleol a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfle iddynt gymryd rhan yn yr ymarferiad drwy gwblhau holiadur byr ar-lein ar www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghori. Roedd copïau papur hefyd ar gael yn llyfrgelloedd a Siopau Gwynedd leol.

Anogwyd cymaint â phosib o bobl Gwynedd i gwblhau a dychwelyd yr holiadur gan ddefnyddio gwefan y Cyngor, y wasg leol, rhaeadru'r neges trwy ein partneriaid, gwefannau cymdeithasol ac e-newyddlen aelodau etholedig Rhaeadr.

Cysylltwyd â cymaint a phosib o grwpiau diddordeb a grwpiau sy'n cynrychioli neu'n gweithio hefo pobl a/neu blant hefo nodweddion cydraddoldeb i roi gwybod iddynt am yr ymgysylltiad ac i ofyn iddynt hysbysu eu defnyddwyr am yr holiadur.

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

Derbyniwyd 197 o holiaduron.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gwblhau cwestiynau am eu nodweddion cydraddoldeb (yn ddewisol) a roedd yr wybodaeth a gasglwyd fel a ganlyn:

1) Cwblhau'r holiadur fel:

- Unigolyn - 159
- Sefydliad neu fusnes – 5
- Dim ateb – 33

2) Rhyw:

- Gwryw - 84
- Benyw - 65
- Gwell gennyf beidio â dweud – 9
- Dim ateb – 39

3) Grŵp oedran:
- 18-29 - 8
- 30-39 - 23
- 40-49 - 29
- 50-59 - 34
- 60-69 - 31
- 70 neu'n hyn - 25
- Gwell gennyf beidio â dweud - 9

- Dim ateb – 38

4) Hunaniaeth genedlaethol:
- Cymro / Cymraes – 77
- Sais / Saesnes – 22
- Prydeiniwr / Prydeinwraig – 46
- Arall – 9
- Gwell gennyf beidio â dweud – 8
- Dim ateb – 35

5) Tarddiad Ethnig:
- Gwyn - 141
- Cymysg / sawl grwp ethnig – 4
- Du / Affricanaidd / Caribïaidd – 1
- Gwell gennyf beidio â dweud – 11
- Arall – 3
- Dim ateb – 37

6) Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?
- Ydw - 15
- Nac Ydw - 129
- Gwell gennyf beidio â dweud – 15
- Dim ateb – 38

7) Crefydd:
- Christion (pob enwad) – 72
- Hindw – 2
- Dim crefydd – 52
- Anffyddiwr – 5
- Tyst Jehova – 1
- Dyniaethwr -1
- Vasinava – 1
- Wicca - 1
- Arall – 7
- Gwell gennyf peidio â dweud – 17
- Dim ateb – 38

8) Cyfeiriadedd Rhywiol:
- Heterorywiol / Strêt - 127
- Dyn hoyw – 1
- Deurywiol – 1
- Arall – 8
- Gwell gennyf beidio â dweud - 20
- Dim ateb – 40

9) Rhywedd adeg geni:
- Gwryw - 79
- Benyw – 61

- Rhyngrywiol - 1
- Gwell gennyf beidio â dweud - 15
- Dim ateb – 41

10) Y ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi eich hun:

- Gwryw - 77
- Benyw - 59
- Arall – 8
- Gwell gennyf beidio â dweud - 13
- Dim ateb - 40

Nid oedd yn bosib adnabod patrwm yn ymatebion unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb.

Dylai cynlluniau unigol ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwd ac ymgysylltu ymhellach â thrigolion Gwynedd yn ôl yr angen.

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Fel rhan o'r broses o lunio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2018-23 yn 2017 cynhaliwyd cyfres o 8 cyfarfod ardal yn ystod mis Gorffennaf er mwyn rhoi cyfle i aelodau lleol amlygu unrhyw faterion oedd angen sylw o fewn yr ardaloedd hynny. Yn ogystal, bu i aelodau'r Pwyllgorau Craffu adnabod materion yr oeddent hwy o'r farn y dylid eu cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor i'r dyfodol.

Cynhaliwyd 4 sesiwn gweithdy pellach gydag aelodau ym mis Medi 2017 yng Nghaernarfon, Penrhyndeudraeth, Dolgellau a Phwllheli. Bwriad y gweithdai hyn oedd rhoi cyfle iddynt adnabod y blaenoriaethau sirol i'w cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor a chynnig sylwadau pellach ar y blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod fesul ardal.

Disgwylir i unrhyw brosiect newydd fod â thystiolaeth gadarn am yr angen amdano. Wrth gynllunio unrhyw brosiect newydd dylid mesur yr effaith ar bobl Gwynedd, a llunio Asesiad Effaith Cydraddoldeb penodol yn ôl yr angen (gweler 1.2).

Er bod Cynllun 2021/22 yn ddilyniad, roedd yna lawer o newidiadau oherwydd y pandemig Covid ac felly penderfynwyd gwneud gweithdai pellach gyda Chynghorwyr Gwynedd.

Er mwyn sicrhau ein bod dal yn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd, penderfynwyd ymgysylltu ar fersiwn 2022-23 o'r Cynllun gyda'r Cynghorwyr eto ym mis Rhagfyr 2021.

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Bydd hyn yn cael ei adnabod yn asesiadau'r cynlluniau unigol |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.<br><br>Bydd angen ystyried rhai o'r sylwadau isod ar y Gymraeg dan y nodwedd yma, a bydd yn fwy o bwysigrwydd mewn rhai prosiectau mewn meysydd fel twristiaeth, addysg ayb nag eraill.<br><br>Mae'r newidiadau cymdeithasol ac yn arferion teithio a symudoledd pobl a welwyd yn sgil Covid yn ystod 2020 wedi amlygu materion ym meysydd twristiaeth a tai (cynnydd tai haf a gwyliau) a sut y mae'r newidiadau hynny yn effeithio ar y gymuned gynhenid.<br><br>Bydd yn bwysig hefyd i'r cynlluniau ystyried effaith Covid ar gymunedau ac unigolion lleiafrif ethnig oherwydd fod rhai carfannau llawer mwy tebygol o ddioddef o'r effeithiau. Bydd hefyd angen ystyried y ffactorau a amlygwyd gan y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys. |
| **Anabledd** | Positif | Mae gofal yn faes blaenoriaeth felly disgwylir cael effaith bositif. Disgwylir i bob cynllun unigol arall edrych ar yr effaith ar anabledd wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.<br><br>Mae'r ymatebion i'r ymgysylltiad yn dangos cefnogaeth mawr i'r gweithlu gofal gyda nifer eisiau iddynt gael codiad yn eu cyflog, amodau gweithio gwell, mwy o hyfforddiant a'r siawns i symud ymlaen yn eu gyrfa. Roedd pryder am y |

| | | |
|---|---|---|
| | | trosiant yn y gweithlu. Mae galw hefyd am wella safonau o fewn cartrefi gofal ac i ddenu mwy o bobl ifanc i fewn i'r maes.<br><br>Neges gryf arall yw'r angen i wneud gwaith ataliol er mwyn sicrhau nad yw pobl angen gofal iechyd a dysgu o ymarfer da mannau eraill. Dangoswyd cefnogaeth gryf i adnoddau fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden fel adnoddau ar gyfer hyn a byddai toriadau yn y meysydd hyn yn "false economy". Pwysleisiwyd hefyd yr angen am drafnidiaeth.<br><br>Hefyd mae'r angen i'r Cyngor gydweithio mwy, yn fewnol a gyda mudiadau allanol fel iechyd a'r trydydd sector, yn neges gryf gan y rhai sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Dylid hefyd rhoi cefnogaeth i gymunedau a darparu adnoddau fel gofal iechyd a cartrefi gofal ychwanegol yng nghefn gwlad yn ogystal â'r trefi mawrion.<br><br>Adnabuwyd y camddefnydd o fannau parcio hygyrch i bobl anabl. Dau berson o blaid pobl anabl yn talu am barcio, un ohonynt yn berson anabl. Dywedodd un person anabl fod ceir wedi parcio ar y pafin yn broblem iddo.<br><br>Mae'r angen am amrywiaeth o dai wedi ei adnabod gan gynnwys rhai hygyrch.<br><br>Dau berson yn poeni nad oeddynt yn cyrraedd meini prawf am ofal er ei bod yn anabl.<br><br>Nodwyd fod pobl anabl a hefo rhai cyflyrau iechyd fwy o angen toiledau cyhoeddus.<br><br>Credai nifer o Feirionnydd nad oedd ansawdd gofal yn wastad ar draws y sir hefo un person yn gofyn am ganolfan i bobl ag Alzheimers yn y rhanbarth ac un arall yn nodi pryder am fethu cael gofal yn y Gymraeg yno. Nododd un person anabl nad oedd yn bosib cael pobl i lanhau yn Meirionydd. Roedd wedi derbyn rhestr gan y Cyngor ond nid oedd neb arno o'i ardal. Credai fod hyn oherwydd yr angen i siarad Cymraeg. Roedd yn pryderu oherwydd yr effaith ar anghenion iechyd.<br><br>Mae'r cyfnod Covid wedi bod yn heriol iawn i bobl anabl a'r gwasanaethau cymdeithasol fel eu gilydd. Mae yna gynlluniau ym mlaenoriaeth 6 sy'n ymateb i hyn.<br><br>Yn ychwanegol, bydd angen i'r cynlluniau ystyried yr effaith y bydd y bandemig Covid ar gael ar bobl hefo cyflyrau penodol, yn enwedig y rhai sydd wedi gorfod ynysu am gyfnodau hir. Bydd rhai pobl sy'n dioddef o Covid hir yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | dod i mewn i'r categori yma. Yn fwy cyffredinol mi fydd y pandemig wedi cael effaithiau ar iechyd meddwl pobl mewn amrywiol ffyrdd. |
| **Rhyw** | Positif | Ceir un cynllun unigol yn y benodol yn y maes yma sef "Merched mewn Arweinyddiaeth" felly disgwylir effaith bositif yma. Wedi dweud hynny nid yw'n bosib adnabod effaith y Cynllun yn ei gyfanrwydd heb gwblhau asesiadau effaith ar y cynlluniau unigol eraill.<br><br>Yn fwy cyffredinol, bydd angen adnabod yr effaith mae Covid wedi ei gael ar iechyd meddwl gofalwyr – un ai gofalwyr pobl anabl neu fel rhieni. Mae'r ystadegau yn dangos fod merched yn fwy tueddol o ymgymryd â rolau gofal. Hefyd bydd angen cofio am deuluoedd un rhiant, ac mae'r nifer helaethaf o'r rhain hefo merch fel penteulu.<br><br>Mae hefyd yn arbennig o bwysig ystyried yr effaith ar bobl, yn ferched neu ddynion, sydd wedi dioddef trais yn y cartref yn ystod y pandemig. |
| **Oedran** | Positif | Mae oedran yn cael ei flaenoriaethu mewn nifer o feysydd felly disgwylir cael effaith bositif ar faes plant, pobl ifanc a phobl hŷn.<br><br>Disgwylir i bob cynllun unigol i edrych ar yr effaith ar oedrannau gwahanol wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.<br><br>Roedd yr ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth i waith ym maes Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, yn enwedig cymorth ac ymyrraeth cynnar, cryfhau addysg a rhoi hyfforddiant i bobl ifanc er mwyn iddynt cael swyddi. Roedd pryder fod pwyslais ar yr iaith Gymraeg yn effeithio recriwtio ac ansawdd addysg o fewn yr ysgolion. Nodwyd pwysigrwydd darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd nifer yn mynegi nad oeddynt eisiau gweld toriadau ym maes gofal plant. Dywedodd un person ei bod yn bwysig i gefnogi pobl ifanc ar ôl iddynt adael gofal.<br><br>Mae pryder ein bod yn colli pobl ifanc dawnus. Swyddi tymhorol twristiaeth ddim yn cadw pobl ifanc yn yr ardal. Diffyg gobaith a dyhead yn broblem i bobl ifanc ym Meirionnydd yn ôl un person. Pobl ifanc angen gwaith i dalu am dai.<br><br>Mae'r Cyngor yn adnabod y bydd newid mewn demograffeg, hefo'r gymuned yn mynd yn hŷn. Mae'r ymateb i'r ymgysylltiad yn dangos fod pobl yn pryderu am |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddarpariaeth i'r dyfodol, e.e. cartrefi gofal, oherwydd y newidiadau hyn. Mae galw i bobl allu byw yn annibynnol yn eu cymunedau ac i roi cefnogaeth i'r cymunedau hynny er mwyn lleihau'r angen am ofal. Mae un ymatebwr eisiau prentisiaethau i bobl hŷn nid yn unig pobl ifanc ac un arall yn nodi'r ffaith fod pobl hŷn angen parcio mewn llefydd agosach at y canol i dref.<br><br>Gwelir galw hefyd am feithrin perthynas da rhwng y cenedlaethau, gyda'r rhaglen deledu Hen Blant Bach yn cael ei enwi. Un person yn cynnig y dylid paru pobl hŷn unig hefo pobl ifanc digartref.<br><br>Adnabuwyd fod ceir yn parcio ar y pafin yn broblem i bobl hŷn a theuluoedd hefo plant bychan mewn pramiau.<br><br>Carfan o bobl sydd efallai ddim yn cael llawer o sylw wrth baratoi Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yw pobl oed gwaith ond mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod hawliau pobl o bob oed. Mae'r sylwadau am swyddi ayb yn berthnasol i'r oedran yma. Roedd cefnogaeth gref i greu a chadw swyddi yng Ngwynedd a gwella'r isadeiledd er mwyn gwneud hynny. Roedd yna hefyd negeseuon am wella sgiliau'r trigolion, denu cwmnïau mawr, peidio bod yn or ddibynnol ar dwristiaeth, a chefnogi datblygiadau tu allan i'r sir. Gall diffyg trafnidiaeth cyhoeddus ar yr adegau iawn greu problemau i bobl sydd eisiau gweithio.<br><br>Mae'r angen am amrywiaeth o dai wedi ei adnabod, gyda anghenion pobl ifanc a phobl hŷn yn cael eu hadnabod. Ond eto ni ddylid anghofio anghenion pobl o oedran arall, gyda'r galw am dai fforddiadwy a thai i bobl lleol. Roedd sylwadau hefyd am gael tai yn agos at gyfleon gwaith a chysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus, llacio'r rheolau cynllunio yng nghefn gwlad, edrych ar dai gwag a'r angen am dai cymdeithasol. Teimlai un person mai'r broblem oedd fod y cartrefi sydd ar gael ddim yn y lle iawn i deuluoedd ifanc (h.y. mewn trefi wrth ymyl ysgolion a siopau).<br><br>Roedd nifer o bobl yn adnabod pwysigrwydd llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden ar gyfer plant, pobl ifanc a phobl hŷn ar gyfer cymdeithasu, iechyd a rhywle i fynd oddi ar y stryd. Nodwyd hefyd yr angen am ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc e.e. clybiau ieuenctid, Clwb Ffermwyr Ifanc.<br><br>Gan fod pobl hŷn yn llawer mwy tueddol o gael problemau hefo Covid mae'n rhaid, wrth i'r cynlluniau symud yn eu blaenau, ystyried yr effaith mae Covid wedi ei gael ar bobl |

| | | |
|---|---|---|
| | | hŷn.  Mae hynny'n arbennig o wir o'r rhai sydd wedi gofod hunan-ynysu am adegau hir.<br><br>Mae'r pandemig hefyd wedi cael effaith gwael iawn ar fywydau a lles plant a phobl ifanc ac mae'n bwysig ystyried hynny hefyd wrth symud ymlaen.<br><br>Yn wir mae Covid wedi effeithio ar les pawb ac mae newidiadau wedi eu gwneud i rai cynlluniau yn ateb hynny. Bydd angen ystyried hyn o fewn pob cynllun. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma.  Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.<br><br>Bydd rhaid cofio hefyd am yr effaith ar iechyd meddwl pobl sydd wedi methu cyfarfod hefo'u partneriaid os nad ydynt yn byw hefo nhw.<br><br>Mae hefyd yn arbennig o bwysig ystyried yr effaith ar bobl, yn ferched neu ddynion, sydd wedi dioddef trais yn y cartref yn ystod y pandemig. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma.  Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.<br><br>Dywedodd un person nad oedd lle i grefydd o fewn addysg. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma.  Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma.  Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.<br><br>Mae wedi bod yn amser anodd iawn i famau beichiog a theuluoedd ifanc oherwydd y pandemig.  Mae cynlluniau i helpu teuluoedd o fewn blaenoriaeth gwella 6. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma.  Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Mae hwn yn faes blaenoriaeth felly disgwylir cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg.  Disgwylir i bob cynllun unigol i edrych ar yr effaith ar yr iaith wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.<br><br>Wrth sôn am flaenoriaethu'r Gymraeg yn benodol yn yr ymgynghoriad, roedd 18 o'r sylwadau yn cefnogi'r angen i |

| | | |
|---|---|---|
| | | flaenoriaethu'r Gymraeg ac 14 yn dweud na ddylid gwario arian ar yr iaith.<br><br>Derbyniwyd nifer o sylwadau am ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gymuned neu thu allan i'r ystafell ddosbarth hefo mudiadau fel Clwb Ffermwyr Ifanc yn cael eu crybwyll gan nifer yn sgil cynnig i ad-drefnu'r Gwasanaeth Ieuenctid.<br><br>Yn ychwanegol adnabuwyd yr anghenion canlynol - i'r Cyngor helpu'r sector breifat i gynnig darpariaeth Cymraeg, mwy o arwyddion dwyieithog, a sicrhau swyddi neu dai addas er mwyn cadw pobl ifanc yn yr ardal. Credai un fod y Gymraeg yn sgil i ddenu swyddi i'r ardal.<br><br>Roedd pryder fod blaenoriaethu'r Gymraeg yn gelyniaethu'r di-Gymraeg a thwristiaid.<br>Roedd pryder hefyd am gostau, gyda nifer yn credu nad oedd eisiau gohebu'n ddwyieithog ond yn hytrach yn newis iaith y derbynnydd ac nad oes angen cyfieithu ar y pryd os yw pawb yn gallu siarad Saesneg. Nodwyd y gallai polisi staffio'r Cyngor elyniaethu pobl di-Gymraeg a gallai'r Cyngor golli allan ar staff sy'n fwy galluog/profiadol. Credwyd fod hyn yn arbennig o debygol mewn meysydd fel gofal. Awgrymwyd y dylid cael cyfle i ddysgu'r Gymraeg 'on the job' a hefyd y dylai'r Cyngor annog, nid gorfodi, staff i siarad yr iaith.<br><br>Roedd galw gan un person i'r ohebiaeth gan ysgolion fod yn ddwyieithog yn hytrach nag uniaith Gymraeg.<br><br>Yn ôl yr ymatebwyr, y pethau pwysig am wersi Cymraeg oedd eu cost, eu cyfleuster (trafnidiaeth ayb) a'u haddasrwydd.<br><br>Derbyniwyd nifer o sylwadau am y Gymraeg wrth drafod materion plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ogystal. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau hynny'n erbyn rhoi ffafriaeth i'r iaith Gymraeg. Mae pryder y byddai'n effeithio safonau addysg a recriwtio staff a hefyd am y gost. Dywedwyd y dylid gadael i athrawon ddatblygu sgiliau iaith tra yn y swydd. Ar y llaw arall derbyniwyd sylwadau am yr angen i datblygu deunyddiau e.e. apps, a rhoi gwersi Cymraeg am ddim.<br><br>Er nad yn sôn am yr iaith Gymraeg yn benodol, mae nifer o sylwadau yn ymwneud â'r angen am dai fforddiadwy a thai i bobl lleol.<br><br>Nodwyd yr angen am Gymraeg clir wrth gyfathrebu hefo'r cyhoedd, yn arbennig adroddiadau addysg. Nodwyd hefyd |

| | | |
|---|---|---|
| | | yr angen i wella safon yr iaith mewn gohebiaeth ayb a'r angen i'w wirio cyn ei anfon. Roedd yr ymatebydd yn derbyn mai oherwydd fod y Gymraeg yn iaith naturiol roedd y gwallau'n digwydd.<br><br>Mae cyfnod Covid wedi arwain at nifer o newidiadau sydd a photensial i gael effaith negyddol ar y Gymraeg, gan gynnwys lleihad yn nifer y digwyddiadau a gweithgareddau sydd yn annog defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, ysgolion wedi cau yn arwain at lai o ddefnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc, straen ar fusnesau lleol sydd yn cynnal cyfleoedd cyflogaeth, lleihad yn y cyfleoedd cyflogaeth newydd, cynydd mewn twristiaeth yn arwain at bryderon am gynydd mewn ail gartrefi a gwarchod enwau lleoeddd cynhenid.<br><br>Mae nifer o brosiectau'r Cynllun yn mynd i'r afael a'r materion hyn. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod nifer o bobl Gwynedd yn byw mewn amodau o anghyfartaledd oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol. Felly mae eisoes nifer o'r prosiectau sydd yn Cynllun y Cyngor yn ymwneud a lleihau anfantais economaidd-gymdeithasol. Isod mae enghreifftiau o brosiectau:<br><br>**Addysg - Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc.**<br>Mae pryder y gall rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y bydd angen help ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw ynghyd â chefnogaeth gyda'u lles. Rydym yn ymwybodol fod pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo wedi amlygu bregusrwydd y sector blynyddoedd cynnar, a thu hwnt i'r ysgol rydym hefyd yn sylweddoli fod y grŵpoedran 16-24 oed wedi eu heffeithio yn anghymesur gan yr argyfwng, fwy nag unrhyw grŵp oedran arall. Yn 2022/23, byddwn wedi cyflwyno strategaeth ar gyfer y maes blynyddoedd cynnar a fydd yn sicrhau'r cychwyn gorau i deuluoedd a phlant 0-5 oed yng Ngwynedd.<br>Byddwn hefyd wedi diweddaru ein fframwaith ymgysylltu ar gyfer ein dysgwyr ôl-16 ac wedi llunio strategaeth i ddarparu cymorth llesiant, iechyd meddwl a digartrefedd iddynt. Byddwn wedi cytuno ar y model cefnogi mwyaf effeithiol ar gyfer cefnogi llesiant disgyblion oedran ysgol.<br><br>**Iechyd - Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol.** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae argyfwng Covid-19 wedi amlygu nifer o ffactorau a all effeithio ar ein gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau gofal priodol i bobl Gwynedd. Rydym wedi ymrwymo i wella safon ein darpariaeth gofal ar draws y sir. Yn ystod 2022/23 byddwn yn:<br>• agor uned dementia pwrpasol sydd wedi'i gwblhau yn Llan Ffestiniog, ond sydd heb allu agor hyd yma oherwydd argyfwng Covid-19.<br>• agor uned dementia pwrpasol yn ein cartref gofal yn Bermo.<br>• gwneud defnydd o'r addasiadau sydd wedi cael eu gwneud i'n cartref gofal yn Nolgellau er mwyn cynnig gofal pwrpasol ar gyfer unigolion sydd a anghenion corfforol dwys.<br>• agor y ddarpariaeth Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwllheli, a pharhau gyda'r gwaith o adnabod cyfleon am ddatblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r sir gyda blaenoriaethi ardal Dolgellau a Meirionnydd yn ehangach<br>• cryfhau ein gwasanaethau sicrwydd ansawdd i sicrhau cefnogaeth ddigonol i ddarparwyr gofal i'w helpu i gynnal gwasanaeth o safon i drigolion Gwynedd.<br><br>**Gwaith - Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £31,300 neu fwy).**<br>Mae cyflogau yng Ngwynedd ymysg yr isaf unman ym Mhrydain. Roedd tâl wythnosol trigolion y sir bron yr isaf yng Nghymru yn 2020 (£500 ar gyfartaledd) â thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£418 – yr isaf ym Mhrydain). Mae cyflogau isel, yn anorfod, am arwain at lefelau uwch o dlodi a dad-boblogi gwledig, sydd yn eu tro yn cael effaith ar ein cymunedau, dyfodol ein pobl ifanc ac ar y Gymraeg fel iaith gymunedol iach.<br>Mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel eisoes wedi cymryd camau i wella'r sefyllfa, gan sicrhau arian Ewropeaidd i wireddu cynllun i ddatblygu gofod i fusnesau leoli yng Nghanolfan Awyrofod Eryri yn Llanbedr, gweithredu cynllun i gynyddu'r nifer o ddisgyblion ysgol sy'n astudio'r pynciau a ddymunir gan fusnesau o fewn sectorau sy'n talu'n dda, dylanwadu ar benderfyniad i barhau'r gwaith dadgomisiynu ar safle Atomfa Trawsfynydd a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu cwmni Egino i adfywio'r safle.<br>I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau hyn, a hefyd yn arwain ar gynlluniau eraill megis cefnogi datblygiad sector diwydiannau creadigol a digidol, cefnogi datblygiad sector ynni carbon isel a sector iechyd a meddygol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda busnesau Gwynedd i ddeall anghenion am sgiliau swyddi gwerth uwch i'r dyfodol ac yn hyrwyddo'r cyfleoedd hyn yn lleol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Cyfiawnder a Safonau Byw - Cefnogi Llesiant Pobl**<br>Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd yn sgil argyfwng Covid-19, ac mae sefyllfa fregus rhai trigolion eraill wedi gwaethygu yn ystod yr argyfwng. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel ac yn iach. Mae gennym rwydwaith eang a niferus drwy gymunedau'r sir sy'n helpu a chefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w anghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw.<br>Mae natur hir dymor y cynllun hwn wrth geisio mynd i'r afael a thaclo tlodi, heriau cymdeithasol cymhleth, gan weithio ar draws nifer o wasanaethau amrywiol, yn golygu ein bod yn parhau ar siwrne i gyflawni amcanion y cynllun.<br><br>**Cyfranogiad - Arloesi Gwynedd Wledig**<br>Mae natur ein heconomi wledig yn golygu mai un person yn unig sy'n gweithio yn 80% o fusnesau Gwynedd, ac mae gormod o waith o fewn sectorau nad ydynt yn talu'n dda. Mae sicrhau cysylltedd digidol i'n cymunedau gwledig, a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y sgiliau i fanteisio arnynt, yn fater sydd wedi bod yn derbyn sylw eisoes. Rydym wedi cynnal peilot i roi WiFi cyhoeddus mewn 8 tref wledig, ac i gynyddu mynediad at offer cyfrifiadurol.<br>I'r dyfodol byddwn yn parhau i ymestyn y ddarpariaeth ddigidol mewn cymunedau ac yn gweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon gan roi sylw arbennig i'r sector bwyd a diod, ynghyd â gweithio i hyrwyddo arloesedd i ddatblygu'r economi sylfaenol a chefnogi ein busnesau gwledig i addasu. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.<br><br>Oherwydd Covid mae pobl wedi methu cael eu gwasanaethau arferol ac mae'n bosib fod hyn wedi effeithio rhai carfanau'n fwy na'u gilydd. Rhaid sicrhau nad ydynt yn cael eu camwahaniaethu yn eu herbyn wrth symud ymlaen. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried. Fel dywedodd un ymatebwr, mae'n bwysig cofio nodweddion cydraddoldeb unigolion wrth ddarparu gwasanaethau, yn enwedig ym maes gofal. Mae hyn yn arbennig o wir wrth i ni symud ymlaen yn sgil Covid. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried. Rhaid cydnabod fod gwaith i'w wneud yn y maes yma yn sgil Covid. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

**Prosiect - Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor**
Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Prosiect - Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus**
Drwy gydweithio gyda ein partneriaid sy'n rhan o Is-grŵp y Gymraeg, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rydym wedi comisiynu astudiaeth o dderbynfeydd traddodiadol a fydd yn ymchwilio i hyn.

**Prosiect - Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig**
Mae gennym bryder fod enwau llefydd cynhenid Cymreig yn diflannu o dirlun Gwynedd o ganlyniad i ddiffyg defnydd o'r enwau Cymraeg a'r cynnydd mewn ail enwi llefydd yn Saesneg.

**Prosiect - Hybu Defnydd o'r Gymraeg Ymysg Plant a Phobl Ifanc**
Mae sgiliau a hyder dysgwyr (o gartrefi di-Gymraeg yn arbennig) yn y Gymraeg wedi dirywio yn sgil y cyfnod clo a Covid-19. Yn 2021/22 rydym wedi llwyddo i sefydlu gwaelodlin o sefyllfa bresennol y Gymraeg yn sgil effaith y cyfnod clo a Covid-19 ac rydym wedi dechrau cefnogi ysgolion i lunio Strategaeth a Chynllun Gweithredu er mwyn ymateb i'r sefyllfa.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Pwrpas Cynllun y Cyngor ydi adnabod blaenoriaethau a meysydd allweddol i'w gweithredu rhwng 2018 a 2023. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma yn edrych ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae disgwyl i bob cynllun unigol gael Asesiad ar wahân ar y prosiect yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono. Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y cynllun unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna. Bydd angen i'r asesiadau hyn adnabod unrhyw gyfleoedd pellach i hybu'r iaith Gymraeg yn eu meysydd.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Isod mae esiamplau o brosiectau sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun sy'n ymateb i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol:

**Addysg - Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc.**
Mae pryder y gall rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y bydd angen help ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw ynghyd â chefnogaeth gyda'u lles. Rydym yn ymwybodol fod pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo wedi amlygu bregusrwydd y sector blynyddoedd cynnar, a thu hwnt i'r ysgol rydym hefyd yn sylweddoli fod y grŵp oedran 16-24 oed wedi eu heffeithio yn anghymesur gan yr argyfwng, fwy nag unrhyw grŵp oedran arall. Yn 22/23, byddwn wedi cyflwyno strategaeth ar gyfer y maes blynyddoedd cynnar a fydd yn sicrhau'r cychwyn gorau i deuluoedd a phlant 0-5 oed yng Ngwynedd.
Byddwn hefyd wedi diweddaru ein fframwaith ymgysylltu ar gyfer ein dysgwyr ôl-16 ac wedi llunio strategaeth i ddarparu cymorth llesiant, iechyd meddwl a digartrefedd iddynt. Byddwn wedi cytuno ar y model cefnogi mwyaf effeithiol ar gyfer cefnogi llesiant disgyblion oedran ysgol.

**Iechyd - Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol.**
Mae argyfwng Covid-19 wedi amlygu nifer o ffactorau a all effeithio ar ein gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau gofal priodol i bobl Gwynedd. Rydym wedi ymrwymo i wella safon ein darpariaeth gofal ar draws y sir. Yn ystod
2022/23 byddwn yn:

- agor uned dementia pwrpasol sydd wedi'i gwblhau yn Llan Ffestiniog, ond sydd heb allu agor hyd yma oherwydd argyfwng Covid-19.
- agor uned dementia pwrpasol yn ein cartref gofal yn Bermo.
- gwneud defnydd o'r addasiadau sydd wedi cael eu gwneud i'n cartref gofal yn Nolgellau er mwyn cynnig gofal pwrpasol ar gyfer unigolion sydd a anghenion corfforol dwys.
- agor y ddarpariaeth Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwllheli, a pharhau gyda'r gwaith o adnabod cyfleon am ddatblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r sir gyda blaenoriaeth i ardal Dolgellau a Meirionnydd yn ehangach.
- cryfhau ein gwasanaethau sicrwydd ansawdd i sicrhau cefnogaeth ddigonol i ddarparwyr gofal i'w helpu i gynnal gwasanaeth o safon i drigolion Gwynedd.

**Gwaith - Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £31,300 neu fwy).**
Mae cyflogau yng Ngwynedd ymysg yr isaf unman ym Mhrydain. Roedd tâl wythnosol trigolion y sir bron yr isaf yng Nghymru yn 2020 (£500 ar gyfartaledd) â thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£418 – yr isaf ym Mhrydain). Mae cyflogau isel, yn anorfod, am arwain at lefelau uwch o dlodi a dad-boblogi gwledig, sydd yn eu tro yn cael effaith ar ein cymunedau, dyfodol ein pobl ifanc ac ar y Gymraeg fel iaith gymunedol iach.
Mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel eisoes wedi cymryd camau i wella'r sefyllfa, gan sicrhau arian Ewropeaidd i wireddu cynllun i ddatblygu gofod i fusnesau leoli yng Nghanolfan Awyrofod Eryri yn Llanbedr, gweithredu cynllun i gynyddu'r nifer o ddisgyblion ysgol sy'n astudio'r pynciau a ddymunir gan fusnesau o fewn sectorau sy'n talu'n dda, dylanwadu ar benderfyniad i barhau'r gwaith dadgomisiynu ar safle Atomfa Trawsfynydd a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu cwmni Egino i adfywio'r safle.
I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau hyn, a hefyd yn arwain ar gynlluniau eraill megis cefnogi datblygiad sector diwydiannau creadigol a digidol, cefnogi datblygiad sector ynni carbon isel a sector iechyd a meddygol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda busnesau Gwynedd i ddeall anghenion am sgiliau swyddi gwerth uwch i'r dyfodol ac yn hyrwyddo'r cyfleoedd hyn yn lleol.

**Cyfiawnder a Safonau Byw - Cefnogi Llesiant Pobl**
Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd yn sgil argyfwng Covid-19, ac mae sefyllfa fregus rhai trigolion eraill wedi gwaethygu yn ystod yr argyfwng. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel ac yn iach. Mae gennym rwydwaith eang a niferus drwy gymunedau'r sir sy'n helpu a chefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w anghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw.
Mae natur hir dymor y cynllun hwn wrth geisio mynd i'r afael a thaclo tlodi, heriau cymdeithasol cymhleth, gan weithio ar draws nifer o wasanaethau amrywiol, yn golygu ein bod yn parhau ar siwrne i gyflawni amcanion y cynllun.

**Cyfranogiad - Arloesi Gwynedd Wledig**
Mae natur ein heconomi wledig yn golygu mai un person yn unig sy'n gweithio yn 80% o fusnesau Gwynedd, ac mae gormod o waith o fewn sectorau nad ydynt yn talu'n dda. Mae sicrhau cysylltedd digidol i'n cymunedau gwledig, a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y

sgiliau i fanteisio arnynt, yn fater sydd wedi bod yn derbyn sylw eisoes. Rydym wedi cynnal peilot i roi WiFi cyhoeddus mewn 8 tref wledig, ac i gynyddu mynediad at offer cyfrifiadurol. I'r dyfodol byddwn yn parhau i ymestyn y ddarpariaeth ddigidol mewn cymunedau ac yn gweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon gan roi sylw arbennig i'r sector bwyd a diod, ynghyd â gweithio i hyrwyddo arloesedd i ddatblygu'r economi sylfaenol a chefnogi ein busnesau gwledig i addasu.

### 3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Mae disgwyl i bob cynllun unigol gael Asesiad ar wahân ar y prosiect yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono a bydd hyn yn cynnwys asesu'r anfantais economaidd gymdeithasol. Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y cynllun unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna. Bydd angen i'r asesiadau hyn adnabod unrhyw gyfleoedd pellach i leihau anghyfartaledd o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu meysydd.

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae'n ymddangos y dylai'r meysydd blaenoriaeth gael effaith sylweddol bositif ar o leiaf rai o'r nodweddion cydraddoldeb. Mae pob asesiad effaith cydraddoldeb unigol yn edrych ar yr effaith mewn mwy o fanylder. Mae hyn yn arbennig o wir os ydi ystyriaethau Covid am gael eu hystyried yn llawn yn eu hasesiadau effaith.

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid oes effeithiau sylweddol negyddol wedi eu hadnabod hefo'r Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae pob asesiad effaith unigol yn edrych ar yr effaith mewn mwy o fanylder. Wedi dweud hynny mae'r pandemig wedi cael effaith negyddol iawn ar bob rhan o gymdeithas ac mae cryn waith i'w wneud ym mhob maes er mwyn delio hefo'r heriau yma.

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | X |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r asesiadau unigol yn adnabod unrhyw effeithiau negyddol a'r camau i'w lliniaru.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Nid yw'n berthnasol i'r Cynllun yn ei gyfanrwydd.

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Mae Adrannau'r Cyngor yn gyfrifol am weithredu'r cynlluniau unigol o fewn Cynllun y Cyngor. Mae prosesau herio perfformiad y Cyngor, ble fydd yr Aelod Cabinet ac aelodau o bwyllgorau craffu yn herio twf a datblygiad y gwaith sy'n cael ei gyflawni ar y Cynllun, yn waith parhaus drwy'r flwyddyn. Mae'r adroddiadau ar y cyfarfodydd herio perfformiad hyn yn cael eu cyhoeddi fel rhan o bapurau cyfarfod y Cabinet.

Os oes angen newid cynnwys neu gyfeiriad unrhyw brosiect unigol bydd angen ail ymweld â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y prosiect hwnnw. Oherwydd Covid-19 bydd yn bwysig gwneud hynny ar bob un cynllun.

Mae’r ddogfen hon hefyd yn cael ei chyflwyno i’r Cabinet a’r Cyngor er mwyn ei chraffu ac yn cael ei hadolygu’n flynyddol.

Hwn yw’r flwyddyn olaf cyfnod y Cynllun yma felly nid yw wedi newid llawer o’r flwyddyn diwethaf.  Wrth greu Cynllun newydd byddwn yn ymwybodol iawn o’n dyletswyddau tuag at gydraddoldeb, anfantais economaidd-gymdeithasol a’r Gymraeg ac yn asesu effaith y Cynllun wrth ei ddatblygu.